Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tal-Y-Bont
# Ffordd Conwy
# Tal Y Bont
# Conwy
# LL32 8QF

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tal-Y-Bont

Lleolir Ysgol Gynradd Tal-y-Bont ym mhentref Tal-y-Bont, Conwy. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 26 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 3 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng dau ddosbarth oed cymysg.

Tua 3% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn llawer yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Lleiafrif o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac nid oes un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 22% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn debyg i'r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2015 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar y cyfan, mae eu medrau llythrennedd a rhifedd yn datblygu'n briodol, ond mae agweddau o fedrau darllen, cyfathrebu a TGCh disgyblion angen eu gwella. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu gan gyfrannu'n werthfawr at weithgareddau yn y dosbarth.

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n annog ei disgyblion i ddangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Mae'r staff yn cydweithio â rhieni yn llwyddiannus ac yn cynnig ystod dda o brofiadau allgyrsiol cyfoethog sy'n cefnogi'r dysgu yn llwyddiannus.

Mewn amser byr, mae'r arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau amlwg o ran y ddarpariaeth, safonau ac arweinyddiaeth. Maent yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol yn llwyddiannus, sy'n cefnogi diwylliant cynyddol o welliant parhaus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrenned, rhifedd a TGCh yn llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir o ystyried eu cefndir ieithyddol. Mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn meithrin medrau dysgu annibynnol priodol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd effeithiol o'u mannau cychwyn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar. Mae llawer yn datblygu ystod gynyddol o eirfa'n briodol ac yn eu defnyddio'n addas i gyfathrebu. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg i drafod eu gwaith gydag oedolion nac i sgwrsio gyda chyfoedion yn y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau llafar yn addas yn y ddwy iaith. Maent yn cyfleu eu hunain yn briodol, er nid yw cywirdeb yr iaith bob tro'n ddigon graenus.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn ynganu geiriau'n gywir ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr cadarn gan ddarllen gyda chywirdeb a rhuglder. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen yn ddeallus a chyda rhuglder cynyddol. Maent yn cywain gwybodaeth o wahanol destunau'n llwyddiannus ac yn medru trafod cynnwys eu llyfrau yn lled effeithiol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn darllen yn gwbl rugl ac yn hyderus yn y Gymraeg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu ystod o frawddegau syml yn lled annibynnol, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o gystrawen gan sillafu'r mwyafrif o eiriau cyffredin yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn atalnodi'n gywir ac yn ysgrifennu mewn ystod addas o destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd yn lled gywir. Mae ychydig o'r disgyblion yn dechrau defnyddio geiriau mwy heriol i greu effaith. Er enghraifft, wrth ddefnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio taith yr uwd o'u storïau am y grochan hud.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n gynyddol hyderus yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ffurfiau ac yn medru trefnu eu gwaith yn llwyddiannus, gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi cywir. Mae llawer o'r disgyblion yn addasu'r arddull a strwythur i wahanol destunau'n addas, er enghraifft wrth greu adroddiad papur newydd yn seiliedig ar stori'r 'Pibydd Brith' ac i ailadrodd chwedlau Cymreig. Maent yn dechrau defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n addas i gyfoethogi eu gwaith ysgrifenedig. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu llawysgrifen yn briodol ac yn dangos balchder yng nghyflwyniad eu gwaith. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddisgyblion afael cadarn ar batrymau sillafu a gramadeg, sy'n llesteirio ansawdd eu gwaith ar adegau.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau rhifedd ac yn eu defnyddio'n addas mewn cyd-destunau gwahanol yn y dosbarth. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o waith ar fesur, arian, amser a thrin data, er enghraifft wrth gofnodi data am eu hoff ffrwythau. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd i ddatrys problemau ymarferol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn defnyddio'u medrau'n briodol i ddatrys problemau pob dydd yn eu gwersi mathemateg ac yn trefnu data'n llwyddiannus i gofnodi canlyniadau arbrofion gwyddonol, er enghraifft wrth greu graff i ddangos canlyniadau pwyso gwrthrychau wrth ymchwilio i nodweddion creigiau. Mae'r disgyblion hynaf yn dechrau cymhwyso'u medrau'n briodol er mwyn datrys problemau heriol, er enghraifft wrth fesur pellter ac amser teithio i Feddgelert. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd digon cyson i ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus iawn i gyflwyno gwybodaeth mewn amrywiol ffurfiau yn cynnwys prosesu geiriau a chreu lluniau i ddangos cylch bywyd y broga.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau TGCh yn briodol i gefnogi'u gwaith mewn pynciau eraill. Maent yn cofnodi a chyfleu gwybodaeth yn addas trwy ddefnyddio prosesydd geiriau ac apiau, er enghraifft i greu e-lyfrau syml ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, gan mai prin yw'r cyfleoedd iddynt gymhwyso'u medrau mewn meysydd eraill, nid yw disgyblion yn adeiladu ar eu medrau TGCh yn ddigon effeithiol a strwythuredig ar draws cyfnod allweddol 2.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn mwynhau mynychu'r ysgol yn ddyddiol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael iddynt, er enghraifft y clwb garddio a choginio ar ôl ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd unrhyw beth yn eu poeni. Mae bron pob disgybl yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion ac maent yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn dangos gofal arbennig o'r disgyblion ieuengaf ar y buarth ac ardal allanol y cyfnod sylfaen. Mae bron pob un yn falch iawn o'u hysgol ac yn dangos parch tuag at yr holl staff ac ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agwedd bositif at eu gwaith ac mae ganddynt syniadau gwerthfawr am beth y maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd mewn gweithgareddau dysgu ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn dda. Maent yn gweithio'n dda yn unigol ac mewn grwpiau ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad am eu gwaith yn lled hyderus gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r cynnwys. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yr hyder i drafod eu gwaith gydag ymwelwyr. Er hyn, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ymwybodol o'u targedau personol ac yn egluro'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac effaith hyn ar y corff. Maent yn mwynhau mynychu'r clwb coginio er mwyn dysgu sut i baratoi bwydydd iach. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn ymgymryd â'u gwaith yn llwyddiannus ac yn trefnu gweithgareddau amrywiol amser chwarae i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn hapus gyda'r cyfleoedd i wneud chwaraeon ac mae llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i ymuno â chlybiau chwaraeon ar ôl ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau personol a chymdeithasol yn ogystal â datblygu eu hyder a'u ffitrwydd yn llwyddiannus. Mae gan bron pob disgybl wybodaeth gadarn am reolau diogelwch y we.

Mae disgyblion yn dechrau cyfrannu'n briodol at waith y gwahanol bwyllgorau sydd ar gael iddynt o fewn yr ysgol. Maent yn falch iawn o'u rôl o fewn y cyngor ysgol a'r cyngor eco. Er eu bod yn weithgar trwy gasglu arian at wahanol elusennau, prin yw eu heffaith hyd yma ar benderfyniadau strategol yr ysgol ac nid yw aelodau'r cyngor ysgol yn hollol glir o'u cyfrifoldebau o fewn y pwyllgor. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a gwybodus trwy eu hymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliannau a chreadoau ar draws y byd. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r byd ehangach a sut maent yn gallu cyfrannu at helpu eraill, er enghraifft trwy ddysgu am effaith fasnach deg ar gymunedau mewn gwledydd eraill.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Ar draws yr ysgol, mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng y staff â'r disgyblion sy'n cefnogi'r dysgu'n gadarn. Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol a chytbwys sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd rhan fwyaf y disgyblion i ddysgu. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu addas sy'n annog disgyblion i feithrin eu medrau dysgu annibynol yn briodol. Mae'r defnydd o feini prawf llwyddiant buddiol ar gyfer ystod o wahanol gweithgareddau yn cefnogi hyn yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw tasgau bob tro'n herio disgyblion, yn enwedig y disgyblion mwy abl, yn ddigon effeithiol, a phrin yw'r cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd a TGCh mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Nid yw'r defnydd o staff cynorthwyol i gefnogi'r dysgu ar lawr y dosbarth bob tro'n ddigon effeithiol. Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn cael ystod o brofiadau buddiol ac ysgogol sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion sylfaenol ac yn meithrin annibyniaeth y disgyblion yn briodol. Mae'r amgylchedd dysgu tu fewn a thu hwnt i'r dosbarth yn annog y disgyblion i ymchwilio ac i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u medrau ar draws meysydd dysgu eraill yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gweithgareddau ysgogol o fewn yr 'ardal wlyb' yn atgyfnerthu medrau iaith a rhifedd yn gadarn. Fodd bynnag, nid yw'r disgwyliadau ar gyfer meithrin a datblygu iaith y disgyblion bob tro'n ddigon uchel. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddefnyddio ac ymarfer y Gymraeg o fewn y dosbarth.

Yn gyffredinol, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael cyfleoedd buddiol i adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ystod o gyd-destunau. Erbyn hyn, mae cynllunio bwriadus yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn gadarn trwy ystod o themâu a gweithgareddau sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Mae cyflwyniadau pwrpasol yn ysgogi disgyblion ac yn eu hannog i ddechrau cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Trwy ddefnyddio holi effeithiol a chyfeirio at yr hyn mae disgyblion eisoes yn ei wybod, mae'r staff yn ymestyn eu dealltwriaeth ac yn hybu eu medrau meddwl yn briodol.

Mae'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o ystod o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Gyda niferoedd bychain o fewn y dosbarthiadau, mae athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr a chyson i ddisgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion sy'n cryfhau eu gallu i wybod sut i wella'u gwaith yn fwy annibynnol. Yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig athrawon yn cyfeirio'n briodol at beth mae'r disgyblion yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i weithredu ar yr adborth er mwyn gwella elfennau penodol o'u gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol er mwyn darparu cymorth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn darparu cymorth ac arweiniad penodol iddynt yn gyflym. Mae'r cynlluniau dysgu unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn bwrpasol a defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o dargedau personol i'r disgyblion yn ddigon penodol ac nid yw staff bob tro'n ystyried effaith ymyraethau ar gyflawniad y disgyblion yn ddigon effeithiol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau eraill amrywiol er mwyn darparu cefnogaeth arbenigol ac arweiniad i staff.

Elfen gref o waith yr ysgol yw'r berthynas gadarn rhwng rhieni a staff. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth gyson am gyflawniad eu plant, yn ogystal â'u targedau personol a phresenoldeb, trwy nosweithiau rhieni buddiol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr a chyson i rieni a gofalwyr trwy'r wefan a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda trwy ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio ac i rannu eu profiadau mewn gwasanaethau dyddiol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymuno â gwahanol glybiau ac i dderbyn cyfrifoldebau am agweddau o fywyd yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd o lysgenhadon chwaraeon sy'n trefnu gweithgareddau amrywiol i ddisgyblion yn ystod amser egwyl. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae clybiau allgyrsiol fel y clwb coginio a'r clwb garddio yn hybu pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini yn llwyddiannus. Mae'r defnydd o ymwelwyr ac asiantaethau gwahanol yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn ystod o wybodaeth ddefnyddiol am faterion lles a diogelu. Er enghraifft, mae'r swyddog heddlu'n ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i addysgu'r disgyblion am sut i gadw'n ddiogel ar y we.

Mae ystod eang o ymweliadau a gweithgareddau'n cael eu trefnu er mwyn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy ymweld â'r ŵyl fwyd yng Nghonwy, adeiladau hanesyddol lleol a chymryd rhan mewn gweithgareddau'r Urdd. Maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol a chelfyddydol trwy amrywiaeth o weithgareddau buddiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau staff er mwyn cyfoethogi'r elfen greadigol trwy glybiau a gweithgareddau penodol. Er enghraifft, mae'r gynorthwywraig yn cynnal gwersi celf yn rheolaidd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ogystal â chynnal clybiau allgyrsiol priodol.

Mae'r ethos cyfeillgar a theuluol o fewn yr ysgol yn hyrwyddo diwylliant cyfoethog o barch, cydraddoldeb a thegwch. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy brofiadau pwrpasol sy'n cynnwys astudiaethau o gredoau a diwylliannau eraill. Mae'r pwyslais cryf ar gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl yn rhan bwysig o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion dderbyn cyfrifoldebau ac i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw trefniadau a gweithgareddau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco wedi llwyr wreiddio ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mewn byr amser ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi cydweithio'n llwyddiannus â staff a llywodraethwyr yr ysgol i wella'r ddarpariaeth, safonau a'r arweinyddiaeth ar draws yr ysgol. Maent wedi llwyddo i rannu gweledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau addysg o'r ansawdd gorau posibl i bob plentyn yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u diddordebau. Mae staff yr ysgol yn cydweithio'n gadarn fel tîm ac yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod y ddarpariaeth, deilliannau a lles disgyblion. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau pellach drwy weithredu nifer o strategaethau pwrpasol, fel gwella medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r pennaeth wedi cydweithio'n effeithiol â'r corff llywodraethol er mwyn sefydlu gweithdrefnau sicrhau ansawdd gadarn. O ganlyniad, mae cynnydd amlwg i'w weld yn y ddarpariaeth a'r deilliannau ar draws yr ysgol ers iddi ymgymryd â'i swydd. Erbyn hyn, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol o'i chymharu ag ysgolion tebyg yn ogystal â chynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella. Maent yn derbyn gwybodaeth fuddiol gan y pennaeth am fywyd a gwaith yr ysgol sy'n atgyfnerthu hyn yn dda. Mae aelodau is-bwyllgorau yn dechrau cyfrannu'n briodol tuag at arwain cyfeiriad strategol yr ysgol trwy ymgymryd â gweithgareddau monitro rheolaidd. Er enghraifft, maent yn ymgymryd ag ymweliadau pwrpasol i graffu ar lyfrau a siarad gyda disgyblion a staff. Dros gyfnod o ansefydlogrwydd o ran newidiadau staffio, mae aelodau'r corff wedi ymgymryd â'u rôl fel ffrind beirniadol yn lled effeithiol.

Yn gyffredinol, mae'r ddogfen hunanarfarnu yn bwrpasol ac yn cynnig darlun gonest a chywir o'r ysgol. Mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n gadarn ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir. Mae'n cynnwys amserlenni synhwyrol a meini prawf priodol i fesur eu heffeithiolrwydd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae arweinwyr wedi blaenoriaethu'n synhwyrol wrth roi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae gan yr ysgol nifer briodol o staff cymwysedig i ddiwallu'r cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn manteisio ar arbenigeddau staff yn briodol, er enghraifft mae'r cymhorthydd dysgu yn cefnogi datblygiad creadigol y disgyblion yn llwyddiannus trwy ddysgu celf yn rheolaidd ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n gwneud y defnydd gorau o staff er mwyn cefnogi grwpiau o ddysgwyr ar lawr y dosbarth. Mae trefniadau rheoli perfformiad staff effeithiol yn eu lle, sy'n gosod amcanion addas ar gyfer datblygu medrau athrawon ymhellach ac sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â'u hanghenion ac anghenion yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli gwariant yn effeithiol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion sy'n deilwng i'w dderbyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2018